OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 3105 (Cy.271)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2009

Gwnaed - - - -	*26 Tachwedd 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*27 Tachwedd 2009*
Yn dod i rym - -	*19 Rhagfyr 2009*

Mae Gweinidogion Cymru'n gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(2), 17(2), 26(1)(a) a (2)(a) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

Yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno, maent wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd iddynt gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**), cafwyd ymgynghoriad cyhoeddus agored a thryloyw tra'r oedd y Rheoliadau hyn yn cael eu paratoi a'u gwerthuso.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2009, a deuant i rym ar 19 Rhagfyr 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 1990 p.16, amnewidwyd adran 1(1) a (2) (y diffiniad o "food") gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adrannau 17 a 48 gan baragraffau 12 a 21 yn eu trefn o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28), "Deddf 1999". Diwygiwyd adran 48 hefyd gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adran 53(2) gan baragraff 19 o Atodlen 16 i Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 (1994 p.40), Atodlen 6 i Ddeddf 1999 ac O.S. 2004/2990.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers" i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf 1999, a'u trosglwyddo wedi hynny i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p.32).

(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 596/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n addasu nifer o offerynnau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn y cyfeirir ati yn Erthygl 251 o'r Cytuniad i Benderfyniad y Cyngor 1999/468 o ran y weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu; Addasiad i'r weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu — Rhan Pedwar (OJ Rhif L188, 18.7.2009, t.14).

Diwygiadau i Reoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2007

2. Mae Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2007(**4**) yn cael eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 9.

3. Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) ar ôl y diffiniad o "Rheoliad 2023/2006" ("*Regulation 2023/2006*") mewnosoder y diffiniad canlynol—

"ystyr "Rheoliad 450/2009" ("*Regulation 450/2009*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 450/2009 ar ddeunyddiau ac eitemau gweithredol a deallus y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd(**5**);", a

(ii) yn y diffiniad o "mewnforio" ("*import*") yn lle "Aelod-wladwriaeth" rhodder "Gwladwriaeth Ardal Economaidd Ewropeaidd"; a

(b) hepgorer paragraff (2).

4. Ar ôl rheoliad 4 (gorfodi Rheoliad 1935/2004) mewnosoder y canlynol fel rheoliad 4A—

"**Gorfodi Rheoliad 450/2009**

4A. Bydd unrhyw berson sy'n torri unrhyw un o'r darpariaethau canlynol o Reoliad 450/2009 yn euog o dramgwydd—

(a) Erthygl 4(f) (gwahardd rhoi ar y farchnad ddeunyddiau ac eitemau gweithredol a deallus nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion labelu);

(b) Erthygl 11(1) a (2) (rheolau ychwanegol ar labelu), fel y'i darllenir gyda 4ydd indent Erthygl 14;

(c) Erthygl 12 (datganiad cydymffurfio); ac

(ch) Erthygl 13 (dogfennau ategol).".

5. Ar ôl rheoliad 6 (awdurdodau cymwys at ddibenion Rheoliad 1934/2004), mewnosoder y canlynol fel rheoliad 6A—

"**Awdurdodau cymwys at ddibenion Rheoliad 450/2009**

6A. Yr awdurdodau cymwys at ddibenion Erthygl 13 o Reoliad 450/2009 yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd a'r awdurdod sydd â chyfrifoldeb dros orfodi yn unol â rheoliad 14(1).".

6. Ym mharagraff (2)(a) o reoliad 13 (tramgwyddau a chosbau), yn lle "rheoliad 4 neu 5" rhodder "rheoliad 4, 4A neu 5".

7. Yn lle rheoliad 14 (gorfodi) rhodder y canlynol–

"**14.**—(1) Rhaid i bob awdurdod bwyd yn ei ardal a phob awdurdod iechyd porthladd yn ei ranbarth weithredu a gorfodi—

(a) darpariaethau Rheoliad 1935/2004 a grybwyllir yn rheoliad 4;

(b) darpariaethau Rheoliad 450/2009 a grybwyllir yn rheoliad 4A; ac

(c) yn ddarostyngedig i baragraff (3), y Rheoliadau hyn.

(**4**) O.S. 2007/3252 (Cy. 287), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2008/1237 (Cy. 124), O.S. 2008/1682 (Cy. 162) ac O.S. 2009/481 (Cy. 49).
(**5**) OJ Rhif L135, 30.5.2009, t.3.